Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

30 Tachwedd 2016

Annwyl Mr Ramsay

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 14 Tachwedd, rwy'n ysgrifennu atoch gyda rhagor o wybodaeth am sgiliau digidol.

Mae gennym lawer o fentrau i wella sgiliau digidol a chodi ymwybyddiaeth amdanynt, gan gynnwys Ymgyrch Cyfathrebu a Marchnata Band Eang Cyflym Iawn, prosiect Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn ar gyfer Busnes, Cynhwysiant Digidol, Cymunedau Digidol Cymru, Llythrennedd Digidol, Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (DCF), Dysgu yn y Gymru Ddigidol a'r Porth Sgiliau.

O ran Band Eang Cyflym Iawn, mae gennym ymgyrch farchnata a chyfathrebu newydd, gwerth £1.5 miliwn, ar gyfer 2016-19. Cafodd ei sefydlu ym mis Hydref i hyrwyddo band eang ac annog pobl i'w ddefnyddio ac i ddangos sut y gall wella bywydau pobl. Mae'n cynnwys gweithgarwch marchnata a hysbysebu, digwyddiadau, cysylltiadau â'r cyfryngau, gwefan a gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol. Er ein bod am iddi gyrraedd bob rhan o'r wlad, mae'n cael ei darparu'n lleol. Caiff gweithgarwch ei ddarparu yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru tan fis Rhagfyr 2017. Rydym yn cydweithio'n glos â'r awdurdodau lleol i roi pecyn o arfau iddynt hyrwyddo band eang cyflym iawn.

Rhaglen gwerth £12.5 miliwn yw'r Prosiect Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn ar gyfer Busnesau i sicrhau bod busnesau ledled Cymru, gan gynnwys y Cymoedd, yn cael y gorau o fanteision band eang cyflym iawn. Noddir y rhaglen gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i helpu busnesau bach a chanolig yn bennaf i ddeall, mabwysiadu a manteisio ar seilwaith band eang.

Trwy ein rhaglen Cynhwysiant Digidol, Cymunedau Digidol Cymru a'r myrdd weithgareddau a restrir yng Nghynllun Cyflawni'r rhaglen Cynhwysiant Digidol, rydym yn parhau i helpu mwy o bobl i elwa ar y technolegau digidol diweddaraf, fel y rhyngrwyd. I weld fframwaith a Chynllun Cyflawni'r rhaglen Cynhwysiant Digidol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016, ewch i http://gov.wales/topics/science-and-technology/digital/digital-inclusion/?skip=1&lang=cy

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Canolfan QED • QED Centre
Y Brif Rodfa • Main Avenue
Trefforest • Treforest
Pontypridd, CF37 5YR

Ffôn • Tel 02920 826646
james.price@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Cynhwysiant cymunedol yw amcan ein rhaglen, Cymunedau Digidol Cymru (CDC). Canolfan Gydweithredol Cymru sy'n ei darparu. Mae CDC yn cynnig help i sefydliadau sy'n gweithio gyda'r bobl hynny sydd fwyaf tebygol o gael eu cau o'r byd digidol (pobl anabl, pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol, pobl hŷn, yr economaidd anweithgar a'r di-waith) i'w helpu i wella'u bywydau, boed hynny trwy allu prynu nwyddau a gwasanaethau rhatach ar-lein, eu helpu i deimlo'n llai ynysig ac i gael gwaith. Mae CDC yn cydweithio â llyfrgelloedd cyhoeddus a thrwy raglenni fel Cymunedau'n Gyntaf, Cymunedau am Waith a LIFT i liniaru rhai o effeithiau drwg elfennau digidol y diwygiadau i'r system les. Bydd yn helpu i roi i bobl y sgiliau digidol sylfaenol i allu ateb gofynion ar-lein y drefn hawlio, gan gynnwys chwilio am waith. Mae'n gweithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i annog mwy o bobl i ddefnyddio gwasanaethau digidol. Mae gwaith da wedi'i wneud i daro'r targedau, gyda 557 o sefydliadau wedi'u helpu a rhyw 52,000 o unigolion yn ymwneud â thechnoleg. Mae ei raglen hyfforddi Cymru gyfan wedi hyfforddi 1,114 o Staff y Rheng Flaen a 435 o wirfoddolwyr hyd yma.

Mae sgiliau llythrennedd digidol perthnasol a chyfoes yn dod yn fwy ac yn fwy hanfodol ar gyfer cael swydd. Mae sgiliau sylfaenol dysgwyr sydd am hyfforddiant sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, yn gorfod cael eu hasesu trwy Becyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru. Mae hynny'n cynnwys Llythrennedd Digidol. Os gwelir bod diffyg, bydd darparwr yr hyfforddiant yn sicrhau bod yna ddarpariaeth i helpu'r dysgwr i ddatblygu'i lythrennedd digidol er mwyn gallu defnyddio'r sgiliau hanfodol hyn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn ei waith, wrth ddysgu ac yn ei fywyd pob dydd.

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (DCF) yn sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth ddigidol ynghlwm wrth bopeth y mae disgyblion yn ei wneud wrth iddynt fynd trwy'r ysgol a bydd athrawon yn cynnwys mwy a mwy o waith digidol yn eu gwersi. Cyhoeddwyd y DCF ar 1 Medi gyda chyfres o ddeunydd ategol, hynny cyn llunio'r cwricwlwm newydd er mwyn rhoi amser i ysgolion a lleoliadau eraill ymgyfarwyddo â'r Fframwaith ac i gynllunio ar gyfer ei fabwysiadu. I weld manylion y DCF, ewch i: http://learning.gov.wales/resources/browse-all/digital-competence-framework/?skip=1&lang=cy

Rhaglen gan Lywodraeth Cymru yw Dysgu yn y Gymru Ddigidol (LiDW) ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn ysgolion yn well. Mae'r rhaglen yn cynnig cyfleoedd i randdeiliaid ar draws Cymru ddefnyddio pecynnau cymorth ac adnoddau digidol i helpu i weddnewid arferion digidol yn yr ysgol. Mae LiDW yn cynnwys nifer o elfennau gan gynnwys Hwb, Ardaloedd Hwb a phecyn Mesur Hyder ar Hwb.

Mae Hwb yn blatfform ar gyfer casgliad cenedlaethol o becynnau ac adnoddau digidol i helpu dysgwyr yng Nghymru. Mae dysgwyr ac athrawon yn gallu'i ddefnyddio i gael at adnoddau ar-lein unrhyw le, unrhyw bryd trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau'r we. Mae'n cynnig arfau hefyd i helpu athrawon i greu a rhannu'u hadnoddau a'u haseiniadau eu hunain. Ar hyn o bryd, mae dros 66 y cant o ysgolion ledled Cymru'n defnyddio'r platfform Hwb.

Mae Ardaloedd Hwb yn caniatáu i'r dechnoleg sy'n sail i Hwb greu ardaloedd sy'n canolbwyntio ar faes, prosiect neu raglen benodol. Hefyd, mae technoleg Hwb yn gallu cynnal mentrau Llywodraeth Cymru fel yr Ardal Dysgu Creadigol arobryn ac Academi Cymru. Mae'r Ardal Dysgu Creadigol wedi cael ei datblygu i roi sylw arbennig i'r adnoddau, newyddion a'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal a'u darparu gan gyrff celfyddydol, diwylliannol a threftadol.

Mae’r erfyn mesur hyder ar-lein, a ddatblygwyd ar Heb i helpu unigolion ac ysgolion i hunan-asesu eu hyder wrth ddarparu’r DCF, yn caniatáu i athrawon hunan-asesu’u hyder wrth roi’r fframwaith ar waith ac yn rhoi dangosfwrdd iddynt dracio’r cynnydd yn eu hunan-hyder dros amser. Rhagwelir y caiff y pecyn ei ddefnyddio hefyd gan ymarferwyr i weld pa feysydd sydd angen eu gwella ac rydym wrthi’n gweithio ar welliannau fyddai’n dangos sut y gellid defnyddio gwybodaeth o’r pecyn i helpu ymarferwyr yn y stafell ddosbarth.

Un pwynt cyswllt yw’r Porth Sgiliau ar gyfer pobl ddi-waith 18+ oed sy’n chwilio am help gyda’u sgiliau ac i wneud eu hunain yn fwy cyflogadwy. Gyrfa Cymru sy’n ei ddarparu. Mae’r gwasanaeth yn cynnwys mynediad agored a defnydd am ddim o’r cyfleusterau TGCh yn nifer o’r 38 o ganolfannau allgymorth ledled Cymru. Gall cynghorwyr helpu cleientiaid sy’n brin eu sgiliau digidol, a rhoi cyfleoedd iddynt ddefnyddio pecynnau ac adnoddau defnyddiol ar-lein nad ydynt efallai ar gael iddynt adref neu nad ydynt yn teimlo’n hyderus i’w defnyddio eu hunain, fel chwilio am swyddi. Mae rhan newydd wedi’i lansio ar y wefan, Llwybrau Cyflogaeth, sy’n helpu unigolion i weld pa gymorth sydd ar gael iddynt. Mae’r pecyn ar-lein yn gofyn nifer o gwestiynau. Mae’r atebion yn cael eu defnyddio fel rhan o fecanwaith ffiltro i weld pa raglenni a llwybrau cynnydd allai fod yn ddefnyddiol i’r unigolion ar sail ei amgylchiadau. Ers ei lansio ym mis Ionawr 2015, mae dros 25,000 o unigolion wedi’u helpu ac mae’r nifer sy’n defnyddio’r gwasanaeth yn cynyddu bob mis.

Yn gywir

**Simon Jones**
Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a Seilwaith TGCh